



Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin & Ceredigion

YMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH ANABLEDD DYSGU

ARGYMHELLION Y STRATEGAETH

This item is also available in English / Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd.



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Ymgynghoriad ar Strategaeth Anabledd Dysgu

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r camau gweithredu sydd wedi deillio o ymgysylltu â phobl niwrowahanol a phobl ag anabledd dysgu fel rhan o drafodaeth ynghylch y strategaeth anabledd dysgu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar hyn o bryd, mae tair strategaeth anabledd dysgu debyg iawn i'w gilydd yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Bydd y strategaeth hon yn un strategaeth ranbarthol sy'n cwmpasu pob ardal. Mae'r strategaeth wedi cael ei hadolygu gan y Bartneriaeth Gwella Bywydau Ranbarthol, sydd yn grŵp tair sir sy'n cynnwys pobl o'r sefydliadau canlynol:

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Sir Penfro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Tîm Perffaith
- Pobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin
- Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
- Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
- Amrywiol brosiectau a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae'r strategaeth wedi'i llywio gan yr asesiad o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd gan Fwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru.

Hoffem glywed eich barn am yr argymhellion sydd wedi dod i'r amlwg o'r ymgysylltu.

Sut rydyn ni wedi llunio ein rhestr o argymhellion

Mae gwaith ar y strategaeth wedi'i wneud gyda'r Tîm Perffaith, grŵp o bobl sydd â phrofiad bywyd o anabledd dysgu, awtistiaeth neu niwrowahaniaeth sy'n byw yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

Mae'r gwaith hwn wedi cael cefnogaeth gan Bobl yn Gyntaf Sir Benfro a Phobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin.

Mae'r **argymhellion** a awgrymir yn seiliedig ar waith sydd wedi'i gwblhau gyda phobl ag anabledd dysgu, awtistiaeth a niwrowahaniaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn ystyried cyflawniadau'r strategaethau presennol. Darparwyd gwybodaeth gan y grwpiau canlynol:

- Bwrdd Partneriaeth Anabledd Dysgu Sir Benfro
- Aelodau'r Tîm Perffaith yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o'r digwyddiadau ymgysylltu ar gyfer ei Gynllun Gwella Gwasanaethau
- Ymatebion i holiaduron a gynhaliwyd gan Hyrwyddwyr Dinasyddion Sir Benfro
- Ymatebion i holiaduron a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ceredigion

Nid yw'r Bartneriaeth Gwella Bywydau Ranbarthol yn credu bod angen ymgysylltu anffurfiol ychwanegol ar hyn o bryd gan fod yr ymatebion rydyn ni'n eu cael nawr i gyd wedi'u hadlewyrchu mewn ymatebion cynharach, ond rydyn ni eisiau clywed eich barn chi ar yr hyn mae pobl wedi'i ddweud.

Cwblhewch y ffurflen ymateb sydd ynghlwm a'i dychwelyd i:
Diwydiannau Norman, Unedau 1-2, Snowdrop Lane, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1JB



Gallwch hefyd weld a chwblhau'r ffurflen ar-lein yn:
<https://wwrpb.org.uk/cy/ymgyngoriad-blaenoriaethau-gofalwyr-gorllewin-cymru-2/>

Rhaid i'r ymatebion cael eu derbyn erbyn Dydd Sul 5 Gorffennaf 2026




Crynodeb hawdd ei ddeall

	Rydym wedi ymgysylltu â phobl ag anabledd dysgu a phobl sy'n niwrowahanol
	Rydym wedi casglu gwybodaeth wrth lawer o bobl wahanol
	Rydyn ni eisiau clywed eich barn chi am yr hyn mae pobl wedi'i ddweud wrthym
	Anfonwch eich sylwadau at: Norman Industries, 1-2 Unedai, Ion Eira, Hwlfordd, Sir Benfro, SA61 1JB
	Gallwch hefyd weld a chwblhau'r ffurflen ar-lein yn: https://wwrpb.org.uk/cy/ymgyngoriad-blaenoriaethau-gofalwyr-gorllewin-cymru-2/

Strwythur y ddogfen

Mae'r ddogfen hon wedi'i threfnu yn y ffordd ganlynol:

- Mae gan bob adran esboniad mewn iaith glir sy'n nodi'r **argymhellion** sydd wedi dod i'r amlwg o'r gwaith ymgysylltu
- Dangosir y cwestiwn sy'n cael ei ofyn gyda'r  symbol
- Yn syth ar ôl hyn, mae crynodeb hawdd ei ddeall o'r argymhelliad a'r cwestiwn
- Mae ffurflen wedi'i chynnwys ar ddiwedd y ddogfen y gellir ei defnyddio i ymateb i'r ymgynghoriad hwn
- Mae geiriau mewn print **trwm** drwy gydol y ddogfen hon wedi'u cynnwys yn y rhestr geiriau anodd ar ddiwedd y ddogfen



Fersiwn hawdd ei deall

	Disgrifir pob argymhelliad yn Gymraeg clir
	Dangosir cwestiynau gyda'r symbol hwn
	Mae gan bob adran grynodeb hawdd ei ddeall o'r argymhelliad a'r cwestiwn
	Mae ffurflen wedi'i darparu i chi gael rhoi eich barn i ni
<p>Geiriau Mawr</p>	Mae geiriau mewn print trwm yn y rhestr geiriau anodd

Ar gyfer pwy mae'r strategaeth?





Mae gan lawer o bobl anabledd dysgu ac un o'r cyflyrau sy'n cael eu cydnabod fel rhai **niwrowahanol**. Fel rhan o'r broses ymgysylltu, awgrymodd pobl y byddai strategaeth sy'n cwmpasu anabledd dysgu a niwrowahaniaeth fel ei gilydd yn well gan y byddai'r camau gweithredu'n debyg i'r ddau.

Rydym yn credu y dylai'r strategaeth fod yn strategaeth anabledd dysgu ond y byddai'r holl argymhellion yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i bobl sy'n niwrowahanol.

 **Ydych chi'n cytuno y dylai'r strategaeth fod ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu a niwrowahaniaeth?**



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Mae gan bobl sydd wedi ein helpu gyda'r strategaeth anableddau dysgu a niwrowahaniaeth
	Maen nhw'n meddwl y dylai'r strategaeth fod ar gyfer pawb, nid yn unig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
	A ddylai'r strategaeth fod ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn unig?
	A ddylai'r strategaeth fod ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a niwrowahaniaeth?

Yr argymhellion

Mae'r argymhellion wedi'u categorio fel a ganlyn:

- Gwybodaeth:** Gwybodaeth a ddylai fod ar gael mewn fformatau clir, hawdd eu deall a hygyrch.
- Hyfforddiant:** Gwaith gyda'r Tîm Perffaith i ddarparu hyfforddiant i staff a phobl anabl.
- Camau gweithredu:** Pethau y gall awdurdodau lleol neu'r bwrdd iechyd ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt.
- Cyfathrebu:** Pethau sy'n destun gwaith gan dimau eraill neu drwy strategaethau eraill ac y mae angen i ni sicrhau bod pobl yn cael gwybod amdanynt.
- Sylwadau:** Pethau na all yr awdurdodau lleol na Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt. Camau gweithredu y gall y gymuned anableddeu dysgu ymgysgu arnynt o bosibl drwy'r Tîm Perffaith.







Unwaith y bydd yr argymhellion wedi'u cytuno, bydd pob awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd yn gweithio gyda phobl yn lleol i benderfynu sut maen nhw'n mynd i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Drwy gydol y ddogfen hon, mae cyfeiriadau at y Tîm Perffaith yn cyfeirio at grŵp o bobl sydd â phrofiad bywyd. Gall y rhain fod yn rhan o'r Tîm Perffaith neu grwpiau eraill sy'n cyflawni'r un swyddogaeth.











Unwaith y cytunir ar yr argymhellion cyffredinol, bydd pob awdurdod lleol a'r gwasanaeth iechyd yn darparu cynllun gweithredu ar gyfer eu hardal.




Fersiwn hawdd ei deall

	Gwybodaeth a ddylai fod mewn fformat clir a hawdd ei ddeall
	Hyfforddiant a ddarparwyd ar y cyd â'r Tîm Perffaith
	Camau gweithredu yw pethau y mae angen i'r awdurdodau lleol eu gwneud
	Pethau y mae angen i'r awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd ddweud wrth bobl amdanynt
	Sylwadau yw pethau y mae pobl wedi dweud wrthym amdanynt ond nad oes gan yr awdurdodau lleol reolaeth uniongyrchol drostynt
	Bydd cynlluniau gweithredu lleol i fynd i'r afael â'r argymhellion

Mae'r argymhellion wedi'u grwpio i'r meysydd canlynol:

	1. Gwybodaeth, cyngor a chymorth
	2. Gwasanaethau cymdeithasol
	3. Gwasanaethau iechyd
	4. Addysg, plant a phobl ifanc
	5. Cyfleoedd dydd, gwirfoddoli a gwaith
	6. Cymdeithasu a chyfeillgarwch
	7. Tai
	8. Trafnidiaeth
	9. Eiriolaeth
	10. Cymorth i ofalwyr

1. Gwybodaeth, cyngor a chymorth

	<p>Mae'r adran hon yn ymwneud â sut rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd</p>
---	--

Codwyd y camau gweithredu canlynol o dan bob maes gwaith.

Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn: Mae gwybodaeth glir, hawdd ei deall a hygyrch yn helpu i leihau pryder a gorbryder.





Noder: mae rhagor o fanylion am wybodaeth a chyngor wedi'u cynnwys mewn adrannau penodol o'r cynllun.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am wasanaethau a sut i gael mynediad atynt.	Camau gweithredu	Pawb
Darparu gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys gwybodaeth ddigidol hygyrch sy'n hyrwyddo gwasanaethau a chymorth.	Gwybodaeth	Pawb
Darparu gwybodaeth am dechnoleg sy'n helpu pobl i fod yn annibynnol fel Alexa a botymau galw. Gelwir hyn yn dechnoleg gynorthwyol.	Gwybodaeth	Pawb
Darparu cyngor yn y gymuned ynghylch ble i ddod o hyd i gefnogaeth heb orfod mynd at y gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd


 **Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?**



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Mae pawb wedi dweud wrthym eu bod am gael gwybodaeth sy'n haws ei deall
	Mae pawb wedi dweud wrthym eu bod eisiau i wybodaeth fod yn haws ei chael
	Ydych chi'n cytuno y dylai'r awdurdodau lleol a gwasanaethau ieuchyd ddarparu gwybodaeth sy'n hawdd ei deall?
	Ydych chi'n cytuno y dylai'r awdurdodau lleol a gwasanaethau ieuchyd wneud gwybodaeth yn haws ei chael?

2. Gwasanaethau cymdeithasol

	<p>Mae'r adran hon yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol</p>
---	---

2.1 Taliadau uniongyrchol

Taliad uniongyrchol yw taliad a ddarperir i unigolyn fel y gall drefnu a thalu am y gofal a'r cymorth ei hun.

Mae taliadau uniongyrchol yn seiliedig ar **asesiad o angen** a dim ond ar gyfer mathau o ofal neu gymorth y cytunwyd arnynt y gellir eu defnyddio.

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu ynghylch sut y gallant gael taliad uniongyrchol a beth y gallant ddefnyddio taliad uniongyrchol ar ei gyfer.

Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn: Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi dewis a rheolaeth i bobl dros sut mae eu gwasanaeth yn cael ei ddarparu ond mae angen gwybodaeth dda arnyn nhw i wneud iddo weithio iddyn nhw.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth glir a hygyrch sy'n hawdd ei deall am gymhwystra ar gyfer taliad uniongyrchol .	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu gwybodaeth glir a hygyrch sy'n hawdd ei deall fel bod pobl yn deall beth y gellir defnyddio taliadau uniongyrchol ar ei gyfer.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu hyfforddiant, cymorth a chynghor i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod sut i ddefnyddio a rheoli taliadau uniongyrchol.	Hyfforddiant	Awdurdodau lleol

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Mae taliad uniongyrchol yn caniatáu i bobl ddewis a thalu am ofal a chymorth eu hunain
	Mae pobl eisiau i'r wybodaeth am daliadau uniongyrchol fod yn haws ei deall
	Mae pobl eisiau mwy o hyfforddiant a chefnogaeth ar sut i ddefnyddio taliadau uniongyrchol
	A ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am daliadau uniongyrchol ?
	A ydych chi'n cytuno bod angen mwy o hyfforddiant ar daliadau uniongyrchol ?

2.2 Mynediad at wasanaethau

Rhaid i bobl gael **asesiad o angen** er mwyn i awdurdodau lleol dalu am wasanaethau. Mae **asesiad o angen** yn cael ei gynnal ganddo chi, eich gofalwyr a gweithiwr cymdeithasol i benderfynu a nodi'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch.

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn bryderus ynghylch a fydd gwasanaethau ar gael i ddiwallu eu hanghenion, yn enwedig o ran gwasanaethau'n cau a pheidio â bod ar gael yn y dyfodol.







? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn: Mae cael gwybodaeth dda am wasanaethau yn lleihau pryder a gorbryder ynghylch sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am bwy sy'n gymwys i gael gwasanaeth.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall fel bod pobl yn deall sut i ofyn am wasanaeth.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am y gwasanaethau sydd ar gael.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am yr hyn rydych chi'n ei dalu am eich gwasanaeth.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu cymorth yn y gymuned i ddod o hyd i wasanaethau.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Darparu gwybodaeth am wasanaethau nad ydynt ar agor neu sy'n cau.	Cyfathrebu	Awdurdodau lleol

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Mae pobl eisiau i'r wybodaeth am bwy all gael gwasanaeth fod yn haws ei deall
	Mae pobl eisiau gwybod pa wasanaethau sydd ar gael a sut i'w cyrchu
	Mae pobl eisiau gwybod faint fydd yn rhaid iddyn nhw ei dalu am eu gwasanaeth
	Mae pobl eisiau cymorth yn y gymuned i gael gwybod am wasanaethau
	Mae pobl eisiau cyfathrebu da am wasanaethau nad ydynt ar agor neu a fydd yn cau am byth
	Ydych chi'n cytuno bod angen gwell gwybodaeth am wasanaethau?
	Ydych chi'n cytuno bod angen gwell mynediad at wasanaethau?

2.3 Staffio

Mae llawer o bryder ynghylch nifer y staff sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol, anawsterau o ran dod o hyd i gynorthwywyr personol, a gwasanaethau sy'n gorfod cau neu leihau eu horiau oherwydd diffyg staff. Mae pob awdurdod lleol yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn, ond nid yw pobl bob amser yn ymwybodol o hyn. Dywedwyd wrthym hefyd nad yw staff bob amser yn deall beth sydd ei angen arnynt.

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:


Mae pobl yn poeni am gael y staff cywir i ddiwallu eu hanghenion.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Dweud wrth bobl am y camau sy'n cael eu cymryd i gael mwy o staff gofal a chymorth	Cyfathrebu	Awdurdodau lleol
Darparu sesiynau yn y gymuned i ddweud wrth bobl am ddod yn weithiwr cymorth neu'n gynorthwydd personol	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Darparu hyfforddiant i'r holl staff ar anabledd dysgu a niwrowahaniaeth	Hyfforddiant	Awdurdodau lleol ochr yn ochr â'r Tîm Perffaith
Darparu sesiynau yn y gymuned i helpu pobl i archwilio ffyrdd gwahanol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol


? ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Darparu mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud i gael mwy o staff i ddiwallu anghenion gofal a chymorth
	Helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau yn y gymuned
	Darparu hyfforddiant i staff ar anabledd dysgu a niwrowahaniaeth
	Cynnal digwyddiadau i ddweud wrth bobl am weithio ym maes gofal cymdeithasol
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am swyddi ym maes gofal cymdeithasol?
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o hyfforddiant ar staff am anableddau dysgu a niwrowahaniaeth?

3. Gwasanaethau iechyd

	<p>Mae'r adran hon yn ymwneud â gwasanaethau iechyd</p>
---	---

3.1 Apwyntiadau hygyrch

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym fod angen help arnyn nhw i gyrraedd apwyntiadau ac i ddeall yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt. Mae pobl wedi dweud wrthym fod llythyrau apwyntiad yn anodd eu deall.

Hoffai pobl gael rhagor o wybodaeth am archwiliadau iechyd blynyddol fel y gallant ddewis a ddylent gael un ai peidio.

Argymhelliad	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Gwneud yn siŵr bod llythyrau apwyntiad yn glir, yn hawdd eu deall ac yn hygyrch.	Camau gweithredu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Darparu gwybodaeth glir a hygyrch sy'n hawdd ei deall am bob gwasanaeth.	Gwybodaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Darparu gwybodaeth glir a hygyrch sy'n hawdd ei deall am archwiliadau iechyd blynyddol.	Gwybodaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod y gallant ofyn am wiriad iechyd blynyddol.	Camau gweithredu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Darparu cymorth yn y gymuned i drefnu apwyntiadau, megis gyda deintydd neu feddyg.	Camau gweithredu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Gwneud llythyrau apwyntiad yn haws eu deall
	Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am wasanaethau iechyd
	Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod y gallant gael archwiliad iechyd blynyddol
	Mae pobl eisiau cymorth yn y gymuned i gael gwybod am wasanaethau iechyd
	Ydych chi'n cytuno bod angen i fwy o wybodaeth fod yn haws ei deall?
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o gymorth yn y gymuned?

3.2 Hyfforddiant

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl hefyd wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu am yr hyfforddiant a ddarperir i staff ac nad ydyn nhw bob amser yn deall anabledd dysgu neu awtistiaeth.






Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod nhw eisiau hyfforddiant hygyrch ar gyflyrau penodol.

Argymhelliad	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu hyfforddiant i'r holl staff ar anabledd dysgu a niwrowahaniaeth.	Hyfforddiant	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio gyda'r Tîm Perffaith
Darparu sesiynau yn y gymuned i helpu pobl i ddeall cyflyrau penodol fel diabetes, epilepsi a phwysedd gwaed uchel.	Camau gweithredu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dweud wrth bobl am gamau sy'n cael eu cymryd i wella staffio i gefnogi pobl ag anabledd dysgu a/neu niwrowahaniaeth ar draws gwasanaethau iechyd.	Cyfathrebu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Darparu hyfforddiant i staff ar anabledd dysgu a niwrowahaniaeth
	Darparu cymorth yn y gymuned i gael mynediad at wasanaethau iechyd
	Darparu mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud i wella staffio ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a niwrowahaniaeth ym maes iechyd
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o hyfforddiant ar staff am anableddau dysgu a niwrowahaniaeth?
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am swyddi ym maes iechyd?

3.3 Y gwasanaethau sydd ar gael

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu am wasanaethau sydd heb ailagor ar ôl COVID-19.

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu ynghylch cau Ysbyty Llwynhelyg.

Mae pobl yn pryderu am y cysylltiad rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae pobl eisiau gwasanaeth cofleidiol i gefnogi eu hanghenion iechyd.



 **Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn mynd drwy broses o greu cynllun gwella gwasanaethau. Bydd y materion uchod yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon ac ni fyddant yn cael eu cynnwys yn y strategaeth.**

Argymhelliad	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Dweud wrth bobl am ganlyniadau'r cynllun gwella gwasanaethau.	Cyfathrebu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda


Nid oes unrhyw gwestiwn ynghylch yr argymhelliad hwn.



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Dweud wrth bobl am y cynllun gwella gwasanaethau</p>
	<p>Nid oes unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r adran hon</p>

4. Addysg, plant a phobl ifanc

	<p>Mae'r adran hon yn ymwneud ag addysg, plant a phobl ifanc</p>
---	--

4.1 Pontio

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu am ddiffyg gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer y cyfnod pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae pobl eisiau cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion, colegau a gwasanaethau i oedolion. Mae pobl wedi awgrymu y gallai oedolion sydd â phrofiad bywyd gefnogi disgyblion yn ystod cyfnodau pontio.



Strategaeth i oedolion yw hon – mae pontio'n cael ei reoli gan wasanaethau plant yn Sir Benfro (sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd) a Sir Gaerfyrddin. Mae Ceredigion yn gweithredu gwasanaeth i bob oed felly nid oes unrhyw gyfnod pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu sesiynau yn y gymuned i helpu pobl i archwilio gwasanaethau sydd ar gael ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Gall pobl sydd â phrofiad bywyd ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion sy'n mynd trwy'r cyfnod pontio.	Sylwadau	Tîm Perffaith



Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei deall

 <p>hawdd ei ddarllen</p>	Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am bontio
	Mae pobl eisiau cefnogaeth yn y gymuned i gael gwybod am wasanaethau sydd ar gael ar ôl yr ysgol neu'r coleg
	Gall y Tîm Perffaith ddarparu gwybodaeth i ysgolion a cholegau
	Ydych chi'n cytuno bod angen i'r wybodaeth am bontio fod yn haws ei deall?
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o gymorth yn y gymuned?

4.2 Cyfleoedd ar ôl gadael yr ysgol

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym nad ydyn nhw'n gwybod am gyfleoedd i weithio na gwirfoddoli ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol.





Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod am gael mynediad at leoedd lle gallant gwrdd â ffrindiau a chymdeithasu. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Adran 6 isod.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth am bethau i'w gwneud yn ystod y dydd ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg fel y gall pobl wneud dewis ynghylch beth i'w wneud nesaf.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am gyfleoedd prentisiaeth, gwaith a gwirfoddoli.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Trefnu ymweliadau ysgol o Flwyddyn 10 ymlaen fel bod disgyblion yn meddwl am waith neu wirfoddoli.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Gall pobl sydd â phrofiad bywyd ddarparu cefnogaeth i ddisgyblion sy'n mynd trwy'r cyfnod pontio.	Sylwadau	Tîm Perffaith

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am weithgareddau, prentisiaethau, gwirfoddoli a gwaith
	Trefnu ymweliadau i wneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am weithgareddau sydd ar gael ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg
	Gall y Tîm Perffaith ddarparu gwybodaeth i ysgolion a cholegau
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am weithgareddau ar ôl yr ysgol neu'r coleg?
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o gysylltiadau ag ysgolion a cholegau?

4.3 Asesu a darparu cefnogaeth

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym nad ydyn nhw'n deall y broses newydd ar gyfer creu Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Mae pobl yn poeni am yr amser mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau.



? **Nid pryderon y gall y strategaeth hon ddylanwadu arnynt yw'r rhain. Rydym wedi nodi'r pryderon ynghylch cyflawnrwydd.**

Argymhelliad	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Dosbarthu unrhyw wybodaeth sydd ar gael am y broses CDU	Sylwadau	


Nid oes unrhyw gwestiwn ynghylch yr argymhelliad hwn.



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Caiff y broses CDU ei rheoli gan y gwasanaethau plant. Byddwn yn dosbarthu unrhyw wybodaeth sydd ar gael</p>
	<p>Nid oes unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r adran hon</p>

5. Cyfleoedd dydd, gwirfoddoli a gwaith

	<p>Mae'r adran hon yn ymwneud â chyfleoedd dydd, gwirfoddoli a gwaith</p>
---	---

5.1 Cyfleoedd dydd

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod eisiau mwy o ddewis ynghylch yr hyn maen nhw'n ei wneud yn ystod y dydd, gan gynnwys gyda'r nos a dros y penwythnos. Maen nhw eisiau dysgu sgiliau newydd a datblygu annibyniaeth.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am yr holl gyfleoedd a gwasanaethau sydd ar gael yn ystod y dydd	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu cymorth fel y gall pobl ddod o hyd i'r gwasanaethau maen nhw eu heisiau	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Gweithio gyda darparwyr gwasanaethau, partneriaid, gofalwyr a phobl sydd â phrofiad bywyd i adolygu a datblygu cyfleoedd dydd i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Darparu canolfannau cymdeithasol i bobl gymdeithasu a chwrdd yn ddiogel	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am wasanaethau sydd ar gael yn ystod y dydd
	Darparu cymorth yn y gymuned i ddarganfod mwy am gyfleoedd dydd
	Adolygu cyfleoedd dydd i wneud yn siŵr eu bod yn diwallu anghenion pobl
	Darparu lleoedd i bobl gymdeithasu a chwrrd
	Datblygu gwasanaethau newydd
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am weithgareddau yn ystod y dydd?
	Ydych chi'n cytuno y dylid adolygu a datblygu cyfleoedd dydd?
	Ydych chi'n cytuno bod angen lleoedd i gymdeithasu a chwrrd â ffrindiau?

5.2 Gwirfoddoli

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod eisiau mwy o gyfleoedd yn y gymuned i wirfoddoli a dysgu sgiliau cyflogaeth.





Mae pobl eisiau cael yr un math o gefnogaeth pan maen nhw'n gwirfoddoli ag y maen nhw'n ei gael mewn cyfleoedd dydd eraill.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Gweithio gyda grwpiau yn y gymuned leol fel eu bod yn deall anghenion cymorth a gallant helpu pobl i lwyddo mewn swyddi gwirfoddol.	Hyfforddiant	Awdurdodau lleol gyda'r Tîm Perffaith
Gweithio gyda phartneriaid sy'n cefnogi grwpiau yn y gymuned i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli â chymorth.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Adolygu'r cymorth a ddarperir i bobl sy'n gwirfoddoli a gwneud awgrymiadau am ffyrdd o'i wella i wneud gwirfoddoli'n fwy llwyddiannus.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Gweithio gyda grwpiau yn y gymuned i'w helpu i ddeall y cymorth sydd ei angen</p>
	<p>Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwirfoddoli â chymorth</p>
	<p>Adolygu'r cymorth sydd ar gael i wella pa mor llwyddiannus yw gwirfoddoli</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen gwella cyfleoedd gwirfoddoli?</p>

5.3 Gwaith am dâl

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod nhw eisiau mwy o gefnogaeth i feddwl am waith a gwneud cais am swydd.

Unwaith mewn swydd, mae pobl angen mwy o gefnogaeth i gadw swydd.



Mae pobl eisiau i gyflogwyr gael gwell hyfforddiant er mwyn deall eu hanghenion.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am y cymorth sydd ar gael i gael swydd.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Darparu cymorth arbenigol i helpu pobl sydd eisiau cael gwaith am dâl i gael swydd.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Gweithio gyda chyflogwyr lleol fel eu bod yn deall anghenion cymorth a gallant helpu pobl i lwyddo mewn swydd.	Hyfforddiant	Awdurdodau lleol


? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am y cymorth sydd ar gael i ddod o hyd i swydd</p>
	<p>Darparu cefnogaeth i gael swydd</p>
	<p>Cefnogi cyflogwyr i ddeall anghenion pobl mewn gwaith</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am gael swydd?</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o gymorth i gael swydd?</p>

6. Cymdeithasu a chyfeillgarwch

	<p>Mae'r adran hon yn ymwneud â chymdeithasu a ffrindiau</p>
---	--

6.1 Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl yn dweud wrthym eu bod am gael hyfforddiant i helpu pobl i ddeall sut i gael perthnasoedd gwell â'i gilydd.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
<p>Darparu sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth ar heriau rhyngweithio cymdeithasol, gan gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • troseddau cyfeillio • perthnasoedd rhywiol • ffiniau cyfeillgarwch 	Hyfforddiant	Awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'r Tîm Perffaith
<p>Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall ar sut i ddelio â phroblemau gyda ffrindiau a pherthnasoedd</p>	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol mewn partneriaeth â'r Tîm Perffaith
<p>Darparu gwybodaeth glir a hawdd ei deall am iechyd rhywiol</p>	Gwybodaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei deall

	Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am sut i ddelio â phroblemau mewn perthnasoedd
	Darparu hyfforddiant ar bethau sy'n effeithio ar berthnasoedd
	Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am iechyd rhywiol
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o gefnogaeth i helpu gyda phroblemau gyda ffrindiau?
	Ydych chi'n cytuno bod angen gwybodaeth hawdd ei deall am iechyd rhywiol?

6.2 Cyfeillgarwch a pherthnasoedd

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl eisiau mwy o wybodaeth a chefnogaeth ar sut i feithrin a chadw cyfeillgarwch, gan gynnwys perthnasoedd rhywiol.

Mae pobl eisiau cefnogaeth i gyplau ddechrau teulu.

Mae pobl eisiau cefnogaeth i gael perthnasoedd gwell â gweithwyr proffesiynol fel gweithwyr cymorth, gweithwyr meddygol proffesiynol a'r heddlu.

Argymhellion	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Cefnogi a darparu gwasanaethau yn y gymuned i helpu pobl i ddatblygu a chadw cyfeillgarwch, gan gynnwys perthnasoedd rhamantus.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Galluogi pobl i fynychu gwasanaethau sy'n caniatáu i bobl gymdeithasu gyda'r nos ac ar benwythnosau.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Gweithio gyda darparwyr, partneriaid, gofalwyr a phobl sydd â phrofiad bywyd i adolygu'r gefnogaeth a ddarperir i feithrin a chynnal perthnasoedd proffesiynol.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol gyda'r Tîm Perffaith

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Darparu cefnogaeth i helpu pobl i ddatblygu cyfeillgarwch</p>
	<p>Darparu cefnogaeth i fynychu gwasanaethau gyda'r nos ac ar benwythnosau</p>
	<p>Darparu cefnogaeth i wella perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o gefnogaeth i helpu i wneud ffrindiau?</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o gefnogaeth i ddatblygu perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol?</p>

6.3 Cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl eisiau mwy o wybodaeth a chefnogaeth ynghylch y cyfryngau cymdeithasol a thrafodion ar-lein.

Mae pobl eisiau mwy o hyfforddiant i ddeall a defnyddio gwasanaethau ar-lein yn ddiogel.






Mae pobl yn poeni am faint o wasanaethau ar-lein sydd ar gael ac nad ydyn nhw'n gallu cael mynediad atyn nhw.

Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth glir a hygyrch sy'n hawdd ei deall i gefnogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein yn ddiogel.	Gwybodaeth	Awdurdodau lleol
Gweithio gyda'r Tîm Perffaith i ddarparu hyfforddiant i leihau'r risg o dwyll a cham-drin ar-lein.	Hyfforddiant	Awdurdodau lleol gyda'r Tîm Perffaith
Darparu cymorth a chyfleoedd i wneud cais am wasanaethau ar-lein – heb yr angen i fod yn berchen ar ddyfais.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol


? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei deall

	<p>Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am ddefnyddio gwasanaethau ar-lein</p>
	<p>Darparu hyfforddiant ar dwyll a cham-drin</p>
	<p>Darparu cymorth i fynd ar-lein</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o gymorth i fynd ar-lein?</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o fynediad at gyfarpar?</p>

7. Tai

	Mae'r adran hon yn ymwneud â thai
---	-----------------------------------

7.1 Dewis ynglŷn â ble rwy'n byw

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn bryderus am y diffyg tai sy'n diwallu eu hanghenion sydd ar gael.

Mae pobl yn pryderu ynghylch y cymorth sydd ar gael iddynt i fyw'n annibynnol.

Mae pobl eisiau gallu byw gartref ond heb i'w teulu orfod eu cynorthwyo drwy'r amser.





Mae darparu gwahanol opsiynau tai yn cymryd amser hir ac mae timau tai'r awdurdod lleol yn edrych ar hyn.

Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth reolaidd a hygyrch am y gwaith sy'n cael ei wneud i wella opsiynau tai.	Cyfathrebu	Awdurdodau lleol
Cefnogi pobl i wneud dewisiadau ynglŷn â ble maen nhw'n byw.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Darparu diweddariadau rheolaidd ar y gwaith sy'n cael ei wneud i wella opsiynau tai</p>
	<p>Cefnogi pobl i ddewis ble maen nhw'n byw</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am ddatblygiadau tai?</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen cefnogaeth i ddewis eich cartref?</p>

7.2 Gwybodaeth a chyngor (tai)

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl wedi dweud wrthym nad ydyn nhw'n deall y dewisiadau sydd ganddynt ynglŷn â byw'n annibynnol. Nid oes gwybodaeth hygyrch ar gael mewn fformatau clir a hawdd eu deall.

Mae pobl yn poeni am arian a sut y gallant fforddio byw'n annibynnol.

Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth hygyrch am wahanol opsiynau tai, gan gynnwys byw gartref, gofal preswyl, byw â chymorth a byw'n annibynnol.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Darparu sesiynau yn y gymuned i helpu pobl i ddeall beth fydd yn rhaid iddynt ei dalu i fyw'n annibynnol.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol


? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei deall

	<p>Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am opsiynau tai</p>
	<p>Darparu cymorth yn y gymuned i ddarganfod mwy am gyfleoedd dydd</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am opsiynau tai?</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am fyw'n annibynnol?</p>

8. Trafnidiaeth

	Mae'r adran hon yn ymwneud â thrafnidiaeth
---	--

8.1 Cymorth i ddefnyddio trafndiaeth

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl yn pryderu bod pobl anabl yn cael anhawster defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn annibynnol. Mae pobl eisiau amserlenni sy'n haws eu darllen. Mae pobl eisiau cymorth er mwyn iddyn nhw allu defnyddio'r gwasanaeth Fflecsi (Sir Benfro yn unig).

Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu gwybodaeth hygyrch am y cymorth sydd ar gael i ddefnyddio trafndiaeth.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Darparu sesiynau yn y gymuned a hyfforddiant teithio i helpu pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth Fflecsi.	Camau gweithredu	Cyngor Sir Penfro
Gweithio gydag adrannau trafndiaeth i gyhoeddi amserlenni haws eu deall neu amserlenni digidol.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol a'r Tîm Perffaith

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Darparu gwybodaeth hawdd ei deall am opsiynau trafndiaeth
	Darparu cymorth a hyfforddiant i ddefnyddio gwasanaeth bws Fflecsi
	Gweithio gyda gwasanaethau trafndiaeth yr awdurdodau lleol i ddarparu tablau hawdd eu deall
	Ydych chi'n cytuno bod angen mwy o wybodaeth am opsiynau teithio?
	Ydych chi'n cytuno bod angen hyfforddiant ar sut i ddefnyddio gwasanaeth bws Fflecsi?

8.2 Hyfforddiant teithio

? Pam bod gennym ni'r argymhellion hyn:

Mae pobl yn bryderus ynglŷn â defnyddio trafndiaeth ac eisiau dysgu sut i'w defnyddio'n annibynnol – gelwir hyn yn hyfforddiant teithio.

Mae pobl yn pryderu am y diffyg dealltwriaeth a ddangosir gan yrwyr bysiau/trên tuag at bobl ag anabledau dysgu neu awtistiaeth.






Nid oes gan yr awdurdodau lleol na gwasanaethau iechyd unrhyw ddylanwad dros sut mae cwmnïau trafndiaeth yn hyfforddi eu staff. Fel grŵp annibynnol, gall y Tîm Perffaith gefnogi'r cwmnïau hyn.

Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Darparu hyfforddiant teithio i bobl.	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol
Pobl â phrofiadau bywyd i ddarparu hyfforddiant i ddarparwyr trafndiaeth.	Sylwadau	Tîm Perffaith

? Ydych chi'n cytuno â'r argymhelliad uchod?



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Darparu hyfforddiant teithio fel y gall pobl ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn annibynnol</p>
	<p>Bydd y Tîm Perffaith yn siarad â darparwyr trafnidiaeth</p>
	<p>Ydych chi'n cytuno y dylid darparu mwy o hyfforddiant teithio?</p>

8.3 Opsiynau trafnidiaeth

Drwy gydol yr ymgynghoriad, roedd pobl yn poeni am y diffyg opsiynau trafnidiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Dywedon nhw wrthym eu bod nhw'n pryderu am ddiffyg trafnidiaeth gyhoeddus gyda'r nos ac ar benwythnosau ac am ddibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus.



? Nid oes gan yr awdurdodau lleol na gwasanaethau iechyd unrhyw ddylanwad dros sut mae cwmnïau trafnidiaeth yn darparu eu gwasanaethau. Fel grŵp annibynnol, gall y Tîm Perffaith lobïo'r cwmnïau hyn.

Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Nid oes gan yr awdurdodau lleol na Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ddylanwad dros wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Nodwyd pryderon a rhoddir cefnogaeth i ymgyrch y Tîm Perffaith am fwy o wasanaethau.	Sylwadau	Tîm Perffaith


? Nid oes unrhyw gwestiwn ar gyfer yr adran hon.



Crynodeb hawdd ei ddeall

	Bydd y Tîm Perffaith yn siarad â darparwyr trafnidiaeth
	Nid oes unrhyw gwestiwn yn ymwneud â'r adran hon

9. Eiriolaeth

	Mae'r adran hon yn ymwneud ag eiriolaeth
---	--

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn bryderus ynghylch ble i gael cymorth eiriolaeth os oes ei angen arnyn nhw.



Mae Strategaeth Eiriolaeth Gorllewin Cymru ar gael. Mae manylion y strategaeth i'w gweld yma:




Fersiwn lawn: <https://wwrpb.org.uk/cy/strategaeth-eiriolaeth-oedolion-gorllewin-cymru/>

Fersiwn hawdd ei deall: <https://wwrpb.org.uk/cy/strategaeth-eiriolaeth-oedolion-gorllewin-cymru/>


Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Sicrhau bod gan bobl wybodaeth am y strategaeth eiriolaeth	Cyfathrebu	Pawb
Darparu gwybodaeth leol hygyrch am wasanaethau eirioli	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Mae strategaeth eiriolaeth ranbarthol ar gael</p>
	<p>Byddwn yn rhoi gwybodaeth leol i bobl</p>
	<p>Nid oes unrhyw gwestiwn ar gyfer yr adran hon</p>

10. Cymorth i ofalwyr

	Mae'r adran hon yn ymwneud â gofalwyr
---	---------------------------------------

Mae gofalwyr wedi dweud wrthym eu bod yn pryderu ynghylch ble mae dod o hyd i gymorth os oes ei angen arnynt. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am seibiant a chymorth i bobl ag anableddau dysgu sy'n gofalu am rieni.

 **Mae Strategaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru ar gael. Mae'r strategaeth i'w gweld yma:**

Fersiwn lawn: <https://wwrpb.org.uk/cy/strategaeth-gofalwyr/>




Fersiwn hawdd ei deall:

Cam gweithredu	Beth fydd yn cael ei wneud	Pwy sy'n gyfrifol
Sicrhau bod gan bobl wybodaeth am y strategaeth gofalwyr	Cyfathrebu	Pawb
Darparu gwybodaeth leol hygyrch am wasanaethau gofalwyr	Camau gweithredu	Awdurdodau lleol

Nid oes unrhyw gwestiwn ynghylch yr argymhelliad hwn.



Crynodeb hawdd ei ddeall

	<p>Mae strategaeth gofalwyr ranbarthol ar gael</p>
	<p>Byddwn yn rhoi gwybodaeth leol i bobl</p>
	<p>Nid oes unrhyw gwestiwn ar gyfer yr adran hon</p>

Rhestr geiriau anodd

Asesiad o angen

Os na allwch chi gyflawni tasgau sylfaenol fel golchi a gwisgo neu fynd i'r toiled eich hun, gall gwasanaethau gofal i oedolion gwblhau asesiad.

Asesiad o angen yw hwn. Mae'n ofyniad o dan y Ddeddf

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant bod yr asesiadau hyn yn cael eu cynnal.

Os cewch eich asesu fel rhywun sydd angen cymorth, byddant yn gweithio gyda chi i gytuno ar eich nodau ac i nodi ac o bosibl trefnu gwasanaethau a fydd o fudd i chi. Mae darganfod pa anghenion cymwys sydd gan unigolyn yn dechrau gyda sgwrs. Yn ystod y sgwrs hon, byddwn yn gofyn i chi beth sy'n bwysig i chi. Byddwn yn gofyn i chi am eich amgylchiadau, eich canlyniadau personol, rhwystrau i gyflawni'r canlyniadau hynny, unrhyw risgiau i chi neu i bobl eraill, a'ch cryfderau a'ch galluoedd. Byddwn hefyd yn gofyn i chi am y cymorth rydych chi eisoes yn ei gael a byddwn yn siarad am ble allwch chi gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnoch chi.

Mae meini prawf cymhwystra cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth i oedolion, plant a gofalwyr. Mae cymhwystra yn cynnwys pedwar maen prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn bod yn gymwys. Mae tabl meini prawf ar gyfer oedolion, gofalwyr a phlant ar gael. Mae hawl awtomatig i gymhwystra i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

- Mae cymhwystra yn seiliedig ar angen nid yr unigolyn ac nid yw'n ymwneud â hawl i wasanaeth.
- Fe'i cymhwysir i warantu mynediad at ofal a chymorth i'r rhai na allant gyflawni eu canlyniadau personol hebdo.
- Gellir diwallu rhai anghenion trwy gynllun gofal a chymorth a rhai trwy fynediad at wasanaethau yn y gymuned.
- Gallai gwasanaethau yn y gymuned gynnwys y rhai a ddarperir gan sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, yn ogystal â grwpiau yn y gymuned a theulu a ffrindiau.
- Os na all darparu gofal a chymorth helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau, nid yw'r cwestiwn o gymhwystra yn codi.

Taliadau uniongyrchol

Taliad uniongyrchol yw taliad a ddarperir i unigolyn fel y gall drefnu a thalu am y gofal a'r cymorth ei hun.

Os ydych chi'n gymwys i gael cymorth ariannol i helpu gyda chost diwallu anghenion gofal, gellir gwneud hyn drwy **daliadau uniongyrchol**. Mae hyn yn eich galluogi i drefnu a phrynu'r cymorth sydd ei angen arnoch yn uniongyrchol yn lle iddo gael ei drefnu drwy wasanaethau gofal oedolion.

Mae **taliadau uniongyrchol** wedi'u cynllunio i roi mwy o annibyniaeth, dewis a rheolaeth i chi, er mwyn eich helpu i reoli eich bywyd eich hun yn eich cartref eich hun. Gellir gwneud taliadau uniongyrchol i'r canlynol:

- pobl anabl 16 oed neu hŷn (gydag anghenion tymor byr neu hirdymor)
- rhieni anabl ar gyfer gwasanaethau plant
- gofawyr 16 oed neu hŷn (gan gynnwys pobl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn anabl)

pobl hŷn sydd angen gwasanaethau gofal yn y gymuned

Mae **niwrowahaniaeth** yn derm sy'n cynnwys y cyflyrau canlynol:

Anawsterau dysgu

ADHD

Dyscalculia

Anaf caffaeledig i'r ymennydd

Syndrom Tourette

Awtistiaeth

Dyspraxia

Anhwylderau datblygu

Dyslecsia

Rhai cyflyrau iechyd meddwl

Argymhellion

Mae pobl wedi gofyn am lawer o newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n gweithio. Yr **argymhellion** yw pethau rydyn ni wedi cytuno y dylid edrych arnyn nhw a'u newid.

Strategaeth

Mae strategaeth yn ddogfen sy'n dweud wrthy ch chi am yr holl bethau a fydd yn cael eu gwneud neu eu newid.

Pontio

Dyma'r symudiad o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae hyn fel arfer yn digwydd yn 18 neu'n 19 oed.

Mae gan Geredigion wasanaeth i bobl o bob oed felly nid oes proses bontio.

TUDALEN WAG - DIWEDD Y DDOGFEN

TUDALEN WAG - DIWEDD Y DDOGFEN